

Adroddiad Blynyddol
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

2012 – 2013
Cyhoeddwyd Medi 2013

Cynnwys

Mynegai	Rhif Tudalen
Y ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gorff Cyhoeddus Adrodd bob blwyddyn	3
Datganiad Cydraddoldeb gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	4
Cyflwyniad a Chefndir	5
Gofynion dan y Gyfraith - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011	6
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	7
Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub	8
Canfod y Risg yn ein Cymunedau	9
Gwasanaethau a ddarparwn i'r Gymuned	9
Trafod â'n Cymuned	12
Cyflogaeth Ein Staff	17
Hyfforddiant	22
Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb	24
Y Fflyd a Chyfleusterau	25
Caffael	27
Amcanion 1 – 11	28
Data ynghylch Cyflogaeth Atodiad 1	41
Data ynghylch Cyflwyno Gwasanaethau Atodiad 2	56

Y ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gorff Cyhoeddus yng Nghymru i Adrodd bob blwyddyn

Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad blynyddol erbyn 31^{ain} Mawrth bob blwyddyn. Dylai'r wybodaeth ymdrin â'r flwyddyn ariannol gyflawn sy'n dod i ben 12 mis cyn y dyddiad ar gyfer adrodd.

Ym mis Mawrth 2013, fe wnaeth y Gwasanaeth gyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol am y cyfnod adrodd 1^{af} Ebrill 2011 i 31^{ain} Mawrth 2012. Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Leol Cymru, dewiswyd yr opsiwn i gynnwys y cynnydd tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod yn ystod chwe mis cyntaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (h.y. Ebrill – Hydref 2012).

Ar ôl llunio'r adroddiad cyntaf, daeth grŵp Cydraddoldeb Strategol y Gwasanaeth i'r casgliad y byddai'r Gwasanaeth ar ei elw petai'r adroddiad yn cael ei lunio yn hydref y flwyddyn adrodd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i adrannau sydd ag Amcanion Cydraddoldeb weithredu newidiadau ac ymgorffori'r newidiadau hynny yn y broses o gynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru adrodd bob blwyddyn ynghylch yr wybodaeth a ganlyn.

- y camau a gymerodd yr awdurdod i ganfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut y mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- datganiad ar ba mor effeithiol yw'r camau a gymerodd yr awdurdod i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (oni bai ei fod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rhywle arall).

Caiff awdurdod gynnwys, yn ei adroddiadau blynyddol, unrhyw fater arall sydd, yn ei dyb, yn berthnasol i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol.

Datganiad Cydraddoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac i sicrhau bod triniaeth deg yn rhan bwysig o bopeth a wnawn. Rydym yn gwneud yr ymrwymiad hwn oherwydd ein bod eisiau darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Gogledd Cymru ac oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae ein gweithwyr yn ei wneud i gyflawni hyn.

Fel cyflogwr, rydym hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a rhoi gwerth ar amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Yn gefn i'r ymrwymiad hwn, mae ein Gwerthoedd Craidd sydd yn rhan annatod o'n harferion gwaith bob dydd gyda phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein cydweithwyr a'n partneriaid. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bawb drwy leihau gwahaniaethu mewn cyflogaeth ac wrth gyflwyno gwasanaethau.

Rydym yn rhoi gwerth ar amrywiaeth, ac yn cydnabod bod pobl wahanol yn dod â phersbectifau, syniadau a diwylliannau gwahanol, a bod y gwahaniaeth hwn yn gallu dod â chryfder mawr. Bwriad ein polisiau a'n gweithdrefnau yw sicrhau tegwch i bawb ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ymhle bynnag y mae.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn gyson â'r canlynol:

- Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol y Sector Cyhoeddus a Rheoliadau Penodol (Cymru) 2011;
- Amcanion Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012, ac mae'n nodi ein hymrwymiad parhaus i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau'r staff a'r holl ymwelwyr ag ardal Gogledd Cymru. Nod y cynllun yw sicrhau gwelliannau gwirioneddol yn y canlyniadau i'n cwsmeriaid a'n staff. Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Simon A Smith

Prif Swyddog Tân

Y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies

**Cadeirydd yr
Awdurdod Tân ac Achub**

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dwyn ynghyd dros 116 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth o fewn un Ddeddf. Pan fo modd, bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd y tu hwnt i ofynion y gyfraith yn ein gwaith yn annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chydlyniant, a hynny fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sefydlu Dyletswydd Gyffredinol a Dyletswyddau Penodol Cymreig ar gyfer cyrff cyhoeddus megis Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r gyfraith yn sefydlu bod y nodweddion gwarchoddedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw (rhywedd) a gogwydd rhywiol.

Mae manylion ynghylch y modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bwriadu sicrhau cydymffurfiad dan y Ddeddf Cydraddoldeb newydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod, sydd i'w gael yn:

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft_word_-_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf

Mae'r ail Adroddiad Blynyddol yn ceisio cwrdd â Rheoliad 16 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, a bydd yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 2^{il} Ebrill 2012 a 31^{ain} Mawrth 2013.

Bydd yr Adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch o fewn yr amserlen osodedig. Er cysondeb, mae'r ddogfen hon yn dilyn y Dyletswyddau Penodol Cymreig, gyda'r data allweddol angenrheidiol yn yr atodiadau.

Yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio tuag at Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella. Er mwyn gweld sut rydym yn gweithio i wireddu cydraddoldeb yn yr Awdurdod Tân ac Achub, gweler ein Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella sydd ar gael ar ein gwefan.

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/95873/cynllun_cyfunol_2010-13.pdf

Gofynion dan y Gyfraith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011)

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gytgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- **dileu wahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf hon neu odani;**
- **hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**
- **hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchoddedig'.


Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Hefyd, mae yna ddyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011), ac maent yn galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys y canlynol:

- cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchoddedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddus ar gael yn hawdd;
- asesu effaith polisiau ac arferion perthnasol;
- hyfforddi a chasglu gwybodaeth ynghylch cyflogaeth;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg gweithwyr am y Ddeddf Cydraddoldeb;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau;
- adolygu cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

Yn fras, diben y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw cynorthwyo cyrff i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

Gwybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



Map o Ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri yng Nghymru. Rôl yr Awdurdod yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a Chynllun Cyfuno 1995;
- cytuno ar gynlluniau blynyddol yr Awdurdod, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol;
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfynu ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Penderfynir ar nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ar sail poblogaeth.

Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub

Y Prif Swyddog Tân yw pennaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ef sydd â rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth, ac mae'n darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn crynhoi'r egwyddorion yr ydym yn eu dilyn a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Dyma'r gwerthoedd craidd:

Gwasanaeth i'r gymuned

Gwerthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r holl grwpiau i leihau risg
- Trin pawb yn deg a gyda pharch
- Bod yn atebol i'r rhai hynny rydym ni'n eu gwasanaethu
- Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn

Pobl

Gwerthfawrogi ein gweithwyr drwy ymarfer a hyrwyddo'r canlynol:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod teilyngdod
- Gonestrwydd, cyfanrwydd ac ymddiried yn ein gilydd
- Datblygiad personol
- Cydweithio a gwaith cynwysedig

Amrywiaeth

Gwerthfawrogi amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Trin pawb â thegwch a pharch
- Darparu amrywiaeth o ddatrysiadau i anghenion a disgwyliadau gwahanol
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o fewn cyflogaeth a dyrchafiad o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a gwahaniaethu

Gwelliant

Gwerthfawrogi gwelliant ar bob lefel o'r Gwasanaeth drwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad drwy wneud y canlynol:

- Bod yn feddwl agored
- Ystyried beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

Canfod y Risg yn ein Cymunedau

Yn 2007, Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân (a adolygwyd ymhellach yn 2009) oedd y prif sbardun ar gyfer strategaeth diogelwch cymunedol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o ran targedu diogelwch tân yn y cartref; mae'n canfod ffactorau a oedd yn gyffredin rhwng marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru, sef:

- Oedran (ifanc iawn neu'r henoed)
- Anabledd (meddyliol, corfforol, neu nam ar y synhwyrau, anabledd dysgu neu salwch tymor hir)
- Byw ar eu pen eu hunain
- Dibynnol ar gyffuriau neu alcohol
- Yr eiddo'n berchen i rywun arall
- Larwm mwg ddim yn gweithio
- Ymddygiad gyda tân (megis ysmegu yn y gwely a choginio dan ddylanwad alcohol).

Yn ogystal â'r saith ffactor hyn, canfuwyd dau fater yn ymwneud â ffordd o fyw:

- Ysmegu
- Pobl â chysylltiad ag asiantaeth gefnogi arall

Y prif amcan i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cyfathrebu gyda phreswylwyr yng Ngogledd Cymru, neu lle bo modd, ymweld â nhw, a hynny er mwyn hybu cartrefi a ffyrdd o fwy diogel. Dan adran 6 o Ddeddf Gwasanaeth Tân ac Achub 2004, mae cyfrifoldeb statudol ar yr ATAAu i wneud darpariaeth ar gyfer hybu diogelwch tân.

Mae gwaith ar y cyd yn digwydd gyda'r ddau ATA arall yng Nghymru, a hynny mewn meysydd diogelwch cymunedol megis lleihau llosgi bwriadol, gwaith ieuentid, addysg ynghylch gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ac ymchwilio i danau.

Roedd Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân hefyd yn tynnu sylw at yr angen i unigolion bregus yn ein cymunedau gael eu hadnabod er mwyn darparu addysg, cyfarpar a chymorth er mwyn iddynt fod yn ddiogel gartref.

Gwasanaethau a ddarparwn i'r Gymuned

Prif rôl yr Awdurdod Tân ac Achub yw ceisio amddiffyn Gogledd Cymru rhag cael ei niweidio gan dân a pheryglon eraill. Mae hyn yn cyfrannu at gael cymunedau sy'n ddiogel a chadarn yn economaidd, ac at wella ansawdd bywyd pobl a pha mor hir y maent yn byw.

Mae gwaith y Gwasanaeth yn hyn o beth yn canolbwyntio ar ddau faes penodol:

- Gostwng nifer y tanau damweiniol a bwriadol a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig drwy ddarparu cefnogaeth a chynghor amserol ac wedi ei dargedu, a hynny ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ac asiantaethau gwirfoddol fel y bo'n briodol.
- Cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflawni'r amcanion hyn drwy amrywiaeth o fentrau.

Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

- Caiff Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref eu cynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac asiantaethau sy'n bartneriaid inni, ac maent ar gael i holl drigolion Gogledd Cymru yn rhad ac am ddim. Yr Archwiliadau hyn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r neges diogelwch tân cymunedol i gartrefi, ac mae'r archwiliadau yn cynnwys cyngor am ffyrdd i wella'r safonau diogelwch tân ac arweiniad ynghylch beth i'w wneud os bydd tân.

Cydlynedd y Sector Gwirfoddol

- Mae gan y sector gwirfoddol gysylltiad â rhai o'r bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas. Drwy'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, rydym yn trafod gyda'r bobl sy'n gweithio yn y mudiadau hyn i ddarparu Archwiliadau Diogelwch Tân yng nghartrefi eu cleientiaid. Caiff yr archwiliadau eu hariannu gan y Gwasanaeth (drwy arian grant gan Lywodraeth Cymru), ac maent yn gymorth, nid yn unig i wella diogelwch a gostwng lefel y risg o dân i'r cleient, ond hefyd o ran darparu cyllid i'r mudiad gwirfoddol.

Protocolau Rhannu Gwybodaeth

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda nifer o sefydliadau yng Ngogledd Cymru. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys pob Awdurdod Unedol, Byrddau Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, meddygfeydd a darparwyr tai. Drwy'r cytundebau a'r gweithdrefnau hyn ar gyfer rhannu gwybodaeth mae modd adnabod y bobl fregus yn ein cymunedau er mwyn darparu addysg, cyfarpar a chymorth iddynt allu bod yn fwy diogel gartref.

Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

- Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyfraniad pwysig i'w wneud at les plant a phobl ifanc, ac mae'n cynnal nifer o gynlluniau i annog ymddygiad diogel.



Digwyddiad Plant Diogel yn Llandudno

Dyma weithgareddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda phobl ifanc:

Addysg

- Mae addysgwyr yn ymweld â phob ysgol yng Ngogledd Cymru, ac yn darparu addysg diogelwch i flynyddoedd 1, 4 a 7
- Mae addysgwyr yn ymweld â phob ysgol gynradd yng Ngham Allweddol 1 a 2
- Mae tîm o addysgwyr yn ymweld â phobl ysgol uwchradd yn y Gogledd fel rhan o ddiwrnod addysgiadol amlasiantaethol o'r enw 'Criw Craidd'.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn cefnogi'r ganolfan addysgiadol amlasiantaethol, 'Pentre Peryglon'.



Yr Addysgwr Melfyn Hughes yn gweithio gyda disgyblion yn Ysgol Plas Coch, Wrecsam

Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd

- Mae GTAGC yn cydweithio ag asiantaethau eraill fel rhan o 'Taith' i leihau'r gwrthdrawiadau difrifol ar y ffyrdd sy'n cynnwys pobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth yn rhan o sioe deithiol 'Effeithiau Angheuol', sy'n cynnal digwyddiadau i bobl ifanc mewn colegau ac ati ar effeithiau a chanlyniadau gwrthdrawiadau difrifol ar y ffyrdd.

Y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol

- Prif nod y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yw cyfrannu at ddatrys y broblem llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl.
- Ymateb i danau bwriadol drwy dadansoddi digwyddiadau bob dydd ar systemau rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, a sicrhau y rhoddwyd neu y rhoddir yr ymatebion priodol. Cydweithio â phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau bod y tanau'n cael eu datrys ac yn arwain at gyfiawnder neu ymyriad.

Trafod â'n Cymuned

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyrraedd Safon Blatinwm y Safonau Iechyd Corfforaethol. Mae'r wobwr hon yn dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i iechyd a lles gweithwyr, a hefyd i gefnogi sefydliadau eraill a'r gymuned leol drwy ymddygiad cyfrifol yn gymdeithasol.

Rhoddir y Safon Blatinwm i gyflogwyr sy'n esiampl i eraill ac yn dangos datblygiad cynaliadwy fel rhan annatod o'u harferion busnes a'u diwylliant, gan gyrraedd nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd.

Gorsaf Ddan Gymunedol y Rhyl

*"Mae Gorsaf Ddan Gymunedol y Rhyl yn golygu trawsnewid gorsaf dân ymatebol a gweithredol yn lleoliad a ddefnyddir yn rhagweithiol i feithrin cydberthynas â'r gymuned."
(Prif Swyddog Tân – Simon Smith)*



Ym mis Mehefin 2007, fe wnaeth Cyngor Sir Ddinbych gymeradwyo cynlluniau ar gyfer y cyfleuster pwrpasol cyntaf o'i fath yn y Gogledd.

Cafodd gorsaf dân y Rhyl ei hadeiladu yn yr 1950au, ac roedd angen ei hadnewyddu a'i moderneiddio. Ar ôl symud Pencadlys y Gwasanaeth o'r Rhyl i safle pwrpasol yn Llanelwy yn 2005, roedd rhannau o'r adeilad yn wag. Golygai hyn fod y Rhyl yn lle perffaith ar gyfer gorsaf dân gymunedol gyntaf y Gwasanaeth, gan wneud y gorau o'r lle gwag a'i ddefnyddio ar gyfer pobl yr

ardal ac ymateb i'r gofyniad sydd ar Wasanaethau Tân ac Achub i ymwneud yn agosach â'r gymuned leol er mwyn hybu diogelwch cymunedol a gweithio mewn partneriaeth.

Er mwyn i gyfleusterau cymunedol yr orsaf fod yn ddichonol, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru astudiaeth o orsafoedd tân cymunedol ledled Prydain er mwyn gweld pa rai oedd fwyaf effeithiol. Hefyd, aeth GTAGC at nifer o asiantaethau cefnogi gwasanaethau a mudiadau cymunedol, gan gynnwys:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
- Tîm Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych
- Age Concern
- Help the Aged

er mwyn gweld sut y gallen nhw ddefnyddio'r cyfleusterau.

Ar sail y gwaith cychwynnol hwn, fe wnaeth GTAGC gynlluniau ar gyfer yr orsaf. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud gwelliannau mawr i ran weithredol yr orsaf a ddefnyddir gan ddiffoddwyr tân a staff eraill. Drwy ddod â gwahanol rannau gwaith ynghyd i gael mwy o effeithlonrwydd a chreu cyfleusterau modern a chyfoes, roedd modd sicrhau bod y Rhyl yn parhau i dderbyn Gwasanaeth Tân ac Achub o'r safon orau.

Roedd yr ymgyrch Tân yn Gyntaf yn ffordd flaengar o ymgynghori a thrafod â'r cyhoedd, a bu'r adborth yn gadarnhaol. Roedd pobl yr ardal yn dweud bod gwir angen am gyfleuster cymunedol o'r fath, a chafwyd sawl cais am adborth ac ymgynghoriad agored. Codwyd ymwybyddiaeth am y cynigion i ailfodelu Gorsaf Dân y Rhyl, ac roedd pobl yr ardal yn cael cyfle i gyfrannu eu syniadau ar gyfer y lle, a dweud pa weithgareddau yr hoffent eu gweld yno.

Cafodd pobl yr ardal bob gwybodaeth am y cynlluniau a'r prosiect wrth iddo fynd yn ei flaen. Roedd hyn yn golygu bod modd gwahanu'r rhannau gweithredol a chymunedol yn yr orsaf, a sicrhau nad oedd tarfu ar waith y gwasanaeth tân.

Ar ôl yr ymchwil a'r broses ymgynghori, y prif nod yn syml oedd darparu lleoliad cymunedol, gydag ystafelloedd amblwrpas i fudiadau ac unigolion o bob sector, a hynny ddydd a nos o fewn amgylchedd lle'r oedd y pwyslais ar dân neu ddiogelwch yn gyffredinol.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Gorffennaf 2007, a daeth yr orsaf dân yn gwbl weithredol fel yr Orsaf Dân Gymunedol gyntaf yn Nghymru ym Medi 2008. Fe'i hagorwyd gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC.

Drwy gynnig ystafelloedd amblwrpas, roedd y gymunedol yn gallu dod i'r orsaf dân i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Mae pobl o bob oed a chefnidir yn dod i gymryd rhan, i integreiddio, i ddysgu neu dim ond i gael hwyl.

I blant, mae'r ymweliad yn brofiad sy'n peri cyffro a chwilfrydedd. Mae asiantaethau lleol a phartneriaid yn teimlo bod y cyfleuster yn darparu lleoliad rhagorol ar gyfer cynnal cynadleddau a chyfarfodydd. Mae pobl fwyaf bregus cymdeithas yn teimlo'n ddiogel a chysurus yno.

- Dros y blynyddoedd, mae ein hymwelwyr wedi amrywio o griw dawnsio bol, i fyfyrwyr o Brifysgol Bangor yn hyfforddi am radd Meistr mewn Seicoleg.
- Ers agor, rydym wedi cael tua 200 o wahanol grwpiau yn ymweld â'r orsaf.
- Fe wnaethom ni groesawu ein 50,000fed ymwelydd ddechrau 2012.

Grwpiau Cymunedol sy'n Defnyddio'r Cyfleusterau yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl

Relate



Mae Relate yn cynnig gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys – cyfryngu teuluol, therapi seicorywiol, cyswllt â phlant, ac ymyrryd mewn trais domestig. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chymorth cancer Macmillan i helpu i reoli cydberthynas pobl ar ôl cael diagnosis o ganser.

Beth ddywedon nhw amdanom ni:

“Mae'r staff yn gefnogol, cyfeillgar a chroesawgar, ac fe wnaethom ni hefyd elwa ar le parcio da a lleoliad niwtral.”

Adsefydlu Cardiaidd



Mae Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – mae'r uned adsefydlu cardiaidd wedi cael mynediad rhad ac am ddim i'r orsaf dros y tair blynedd diwethaf. Dyma un o'n grwpiau mwyaf hirsefydlog. Mae cleifion cardiaidd sy'n gwella yn aml yn gyndyn i fynd i gampfa brysur ar y stryd fawr. Yma, mae cleifion yn cael cymorth arbenigol unigol gan dîm y GIG, a hefyd yn cael gwneud ymarferion cardiofasgwlaidd ysgafn. Fel rhan o'u sesiynau wythnosol, mae'r nyrsys yn rhoi gwybodaeth am iechyd a lles, gan gynnwys deiet a maeth, straen ac ymlacio. Maent yn hefyd yn cael sgwrs am ddiogelwch tân fel rhan o'u rhaglen wyth wythnos.

Ers iddynt fod yn ymweld â ni, maent wedi bod yn darparu nifer o gyrsiau wyth wythnos. Mae tua 150 o bobl wedi mynychu'r cwrs yn yr orsaf.

Yn ôl y brif nyrs:

“Mae problemau parcio, amser teithio a chost yn atal llawer o bobl rhag mynychu cyrsiau adsefydlu yn yr ysbyty. Mae llawer o'r bobl sy'n dod i'r orsaf yn rhai na fyddai'n mynychu'r cwrs fel arall. Mae'r orsaf yn wir yn hygyrch i bobl yr ardal, ac mae hyn yn wir o fudd i ni.”

Dim Smygu



Mae Dim Smygu Cymru yn cynnal sesiynau grŵp bob wythnos. Mae'r sesiynau'n cychwyn rai wythnosau cyn y mae pobl yn bwriadu rhoi'r gorau iddi, ac maent yn helpu pobl i baratoi. Mae'r sesiynau grŵp yn para chwe wythnos.

Ar ôl rhoi'r gorau iddi, gall pobl barhau i gwrdd bob wythnos i gael cymorth ac anogaeth, gan eu helpu i beidio ag ailafael.

Beth ddywedon nhw amdanom ni:

“Yr orsaf gymunedol yw'r grŵp dim smygu mwyaf poblogaidd yng ngogledd Cymru, a hynny oherwydd y lleoliad a'r ffaith fod parcio'n hawdd. Mae llawer o bobl yn galw heibio ar eu ffordd adref o'r gwaith.”

Coleg Harlech



Mae'n bosibl fod mynychu cyrsiau neu gyfarfodydd mewn llefydd traddodiadol yn codi ofn ar rai pobl. Mae'r orsaf dân gymunedol yn hygyrch i bawb, ac mae'n gymorth i chwalu rhwystrau.

Dyma gyrsiau sydd wedi eu cynnal yn yr orsaf eleni - ECDL, Photoshop, rheoli data ar gyfrifiadur personol, tacluso cyfrifiaduron, y We, Ffrangeg ar gyfer Gwyliau, a Chyflwyniad i Windows 7.

Datganiad Cenhadaeth Coleg Harlech

“Galluogi oedolion i wella eu cyfleoedd mewn bywyd a'u rhagolygon gwaith drwy gynyddu eu gallu i ddysgu drwy ddarparu addysg o ansawdd uchel, mewn safleoedd preswyl a chymunedol, gan roi sylw priodol i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.”

Early Bird



Beth maen nhw'n ei wneud?

Mae Early Bird ar gyfer rhieni sydd a'u plant wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac sydd heb gyrraedd oedran ysgol statudol eto. Nod y rhaglen ddeg wythnos a gynhelir yn yr orsaf yw rhoi cymorth i rhieni yn y cyfnod rhwng cael y diagnosis a lleoliad mewn ysgol, gan eu grymuso a'u helpu i'w gwneud yn haws i'w plentyn gyfathrebu'n gymdeithasol ac ymddwyn yn briodol yn eu hamgylchedd naturiol. Mae hefyd yn helpu rhieni i sefydlu arferion da wrth ymdrin â'u plant yn ifanc er mwyn achub ar blaen ar ddatblygu ymddygiad amhriodol.

Beth ddywedon nhw amdanom ni:

"Yn barod i helpu bob amser, cyfleusterau ardderchog ac mae'r parcio'n wych."

Y Fframwaith Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cyflwyno'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth, a'r hyn sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn ateb y disgwyliadau hynny. Mae dyletswydd ar y Llywodraeth o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i lunio'r Fframwaith a sicrhau ei fod yn gyfoes. Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub dalu sylw i'r Fframwaith wrth gyflawni eu dyletswyddau. Isod, ceir darn o'r ddogfen sy'n ymwneud ag 'arferion da' ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Mae cael ein crybwyll yn y ddogfen hon yn gredyd i'n henw da a'r gwaith da a wnaed yn yr orsaf hyd yn hyn.

Dyma a ddywed Fframwaith Cenedlaethol 2012:

"Mae gorsafoedd tân yn gyfleusterau cyhoeddus gwerthfawr, sydd yng nghanol ein cymunedau ac wedi'u lleoli'n aml yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig. Oherwydd hyn, mae iddynt werth mwy o lawer na bod yn gartref i gerbydau a diffoddwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unig. Maent yn cynnig lle a llety gwerthfawr i wasanaethau brys eraill ac amryw o weithgareddau trydydd sector ac allgymorth cymunedol. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cydnabod y rôl gymunedol werthfawr sydd ganddynt ac mae nifer o orsafoedd fel y Rhyl, Llanelli a Threlái eisoes wedi neilltuo manau i'w defnyddio gan y gymuned leol."

Rhagor o Ymgysylltu â'r Gymuned Leol

- Mae banciau dillad wedi cael eu gosod y tu allan i orsafoedd tân ledled y gogledd fel rhan o fenter genedlaethol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol drwy gefnogi pobl yn y gymuned pan fyddont mewn angen. Mae'r cynllun yn golygu bod tecstilïau a roddir gan aelodau o'r gymuned yn cael eu hailgylchu, gyda'r rhai y mae'n bosibl eu gwisgo yn cael eu hanfon i wledydd sy'n datblygu, ac eitemau anaddas yn cael eu hailgylchu ar gyfer y fasnach garpiâu.
- Mae cystadlaethau pysgota yn cael eu cefnogi gan GTAGC er mwyn ennyn perthynas â phobl ifanc ym Mlaenau Ffestiniog a manteisio ar gyfle i'w haddysgu am danau bwriadol tra maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau pysgota.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi dychwelyd i archfarchnadoedd yn Wrecsam i siarad â phobl sy'n siopa am bwysigrwydd coginio'n ddiogel.

- Mae staff wedi ymweld â marchnadoedd da byw yn y rhanbarth i sicrhau bod tirfeddiannwyr yn talu sylw i weithdrefnau diogelwch sylfaenol ac yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth pryd y byddant yn llosgi.
- Mae staff wedi ymweld â phrentisiaid yn Airbus i ddangos safle damwain ffug er mwyn tynnu sylw at ganlyniadau goryrru, peidio â gwisgo gwregys, a gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau.
- Mae'r Gwasanaeth yn cynnal cystadlaethau diogelwch dros yr haf yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gyda phlant a phobl ifanc o bob rhan o'r rhanbarth yn cymryd rhan mewn cwisys i dynnu sylw at beryglon diogelwch tân er mwyn ennill pabell newydd.
- Bu'r Gwasanaeth yn sioeau Môn, Fflint a Dinbych, a Meirionydd i gynnig cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o bynciau, o ddiogelwch tân i ofal iechyd. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Diogelwch Cymunedol, Cymorth i Ddiodefwr, Diogelwch ar y Ffordd, a'r Gwasanaeth Camddefnyddio Cyffuriau at ei gilydd i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gwybodaeth diogelwch cymunedol yn yr un lle.
- Yn y Sioe Frenhinol, daeth cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru at ei gilydd i annog plant i ddysgu am ddiogelwch tân a hybu diogelwch ar y ffordd. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r Gwasanaeth gael cysylltiad â miloedd o bobl o Gymru benbaladr a thu hwnt.
- Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio â'r gymuned leol i ddiogelu ysgolion a'r cyffiniau a'u cadw'n ddiogel ac yn rhydd o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a hynny fel rhan o'r fenter 'Gwarchod Ysgolion'.
- Mae'r Gwasanaeth yn cynnal clwb cinio yng ngorsaf dân Dolgellau. Ar ôl y cinio, mae'r ciniawyr yn cael cyflwyniadau deng munud gan aelodau o wahanol asiantaethau, e.e. tân, yr heddlu, pensiynau, cam-drin domestig, Cyngor ar Bopeth ayyb. Mae'r ciniawyr yn gallu defnyddio consol gemau Nintendo Wii, a chymryd rhan un o'r gemau sydd ar gael i'w prynu er mwyn cael ymarfer corff. Mae hyn yn gymorth i'r cydsymud rhwng y llaw a'r llygad, ac mae'n boblogaidd iawn. Mae'r cinio'n cydfynd ag amserlen y bus gan fod y ciniawyr yn cael teithio am ddim. Gall y rhan fwyaf ohonynt deithio'n uniongyrchol i'r orsaf gan fod gyrrwr y bus yn eu codi ac yn eu gollwng y tu allan i'r Orsaf Dân.

Cyflogaeth

Ein Staff

Data ynghylch Cyflogaeth Staff

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y Gwasanaeth yn cyflwyno dull hunan-wasanaeth i ddilysu data yn electronig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr wybodaeth ar gronfa ddata Adnoddau Dynol y Gwasanaeth yn fwy manwl gywir ac yn fwy cyfoes.

Casglwyd data cyflogaeth yn flynyddol ers sawl blwyddyn; adroddir yn ei gylch i Lywodraeth Cymru.

Data Cydraddoldeb ar adeg Recriwtio

Mae Workforce, y gronfa ddata Adnoddau Dynol, yn cofnodi gwybodaeth recriwtio staff i ochr gefnogol y Gwasanaeth Tân ac Achub, a defnyddiwyd hwn ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân yr ochr weithredol mewn ardaloedd gwledig. Trwy ymestyn y defnydd o fodiwl recriwtio Workforce, gellir cynorthwyo gyda'r dasg o gasglu data recriwtio ac adrodd yn eu cylch yn y dyfodol.

Data ynghylch Cyflogaeth – (*Gweler Data ynghylch Cyflogaeth yn Atodiad 1*)

Gwybodaeth berthnasol arall am Gyflogaeth

Profiad Gwaith

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwmo i ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc, a hwnnw o'r safon uchaf, yn realistig ac yn ddiogel. Nod y Gwasanaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynnddi, i weithio ynnddi ac ymweld â hi. Drwy ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd, mae gan y Gwasanaeth gyfle i ymwneud â dinasyddion y dyfodol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Drwy fanteisio ar y cyfle hwn, gall y Gwasanaeth wneud y canlynol:

- Ymwneud â phobl ifanc a rhoi cyngor am ddiogelwch cymunedol.
- Cyrraedd rhai o'r aelodau mwyaf anodd eu cyrraedd yn y cymunedau hynny drwy gynnal cynllun profiad gwaith yn arbennig ar eu cyfer.
- Galluogi'r rhai sy'n mynd ar brofiad gwaith i ddylanwadu ar eu teuluoedd, eu perthnasau a'u ffrindiau; gall gwersi diogelwch y cynllun ymestyn ymhellach na'r unigolyn ifanc.
- Cynyddu amrywiaeth yn y Gwasanaeth drwy annog bechgyn a merched i ddod am brofiad gwaith. Gellir defnyddio'r cynllun fel dull i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth er mwyn annog mwy o ferched i ymuno â'r Gwasanaeth.
- Cyfrannu at leihau tanau bwriadol a galwadau ffug maleisus drwy godi ymwybyddiaeth am y ddwy broblem hon fel rhan o'r cynllun profiad gwaith.

Bydd pobl ifanc sy'n dod am brofiad gwaith yn elwa drwy wella eu gwybodaeth am ddiogelwch, byddant yn dysgu am weithio fel unigolion ac fel aelodau o dîm. Byddant yn dysgu am ddatrys problemau, deheurwydd ac iechyd a diogelwch. Mae profiad gwaith yn y Gwasanaeth wedi cael ei rannu'n ddau categori :

- **Categori un** – pan fo'r person ifanc eisiau dod i Academi'r Gwasanaeth a chael cwrs ffug ar gyfer myfyriwr-ddiffoddwr tân
- **Categori dau** – pan fo'r myfyriwr yn dymuno cael profiad gwaith o fewn swyddogaeth gefnogol, megis yr ystafell reoli, gweinyddiaeth, cyllid neu adnoddau dynol

Mae'r cynllun profiad gwaith – categori un yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, ac yn para pum diwrnod, o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan ddod i ben gyda'r myfyrwyr yn dangos eu sgiliau mewn seremoni cwblhau hyfforddiant. Caiff dau gwrs eu cynnal, un yn yr Wyddgrug a'r llall ym Mhorthaethwy er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr o bob rhan o ogledd Cymru.

Nid yw cael profiad gwaith gyda'r Gwasanaeth yn golygu y bydd pobl ifanc yn mynd at danau ac argyfyngau eraill. Ar ôl rhoi'r mesurau rheoli yn eu lle, bydd y bobl ifanc yn cael profiad o amgylchedd gwaith sydd yn ddiogel, yn heriol, yn rhoi boddhad ac yn arwain at ganlyniadau mesuradwy.

Lluniwyd llyfryn i roi arweiniad i'r myfyrwyr ac i'w galluogi i wneud y gorau o'u lleoliad profiad gwaith. Mae'r llyfryn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'n gofyn i'r myfyrwyr lenwi dyddiadur er mwyn myfyrio arno, a chwblhau pedwar modiwl. Mae un o'r modiwlau wedi ei anelu at wneud eu cartrefi'n fwy diogel, ac mae'n rhaid iddynt wneud y prosiect hwn yn benodol. Ar ddiwedd y profiad gwaith, rhaid i rywun penodedig gael y person ifanc i adrodd yn ôl er mwyn i ni, fel Gwasanaeth, ddysgu sut rydym ni'n cael eu gweld o'u safbwynt nhw fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i symud ymlaen.

Lleoliadau Hyfforddiant Adeiladu Sgiliau

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Iâl yn Wrecsam i ddarparu cynllun lleoliad gwaith sy'n gallu para hyd at 12 mis, yn ddibynnol ar anghenion y myfyriwr. Mae'r cynllun yn rhedeg ers dwy flynedd, ac mae wrthi'n recriwtio ymgeiswyr ar gyfer ei drydedd blwyddyn.

Yn wreiddiol, dechreuodd y cynllun gyda thri lle yn y Gwasanaeth, sef yn y Swyddfeydd Diogelwch Sirol yn Ynys Môn, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Ehangwyd hyn yn yr ail flwyddyn, er mwyn darparu 7 lleoliad yn y Gogledd. Defnyddiwyd y tri lleoliad i ddatblygu 13 o bobl ifanc drwy gydol y flwyddyn, ac wrth i bobl adael i ymgymryd â swyddi ystyrlon, rhoddwyd cyfle i ymgeiswyr newydd gymryd rhan.

Mae'r cynllun yn rhan o Adeiladu Sgiliau, sef rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei hariannu ar gyfer pobl ifanc ddi-waith rhwng 16 ac 17 mlwydd oed a sefydliadau lleol. Ar ôl cadarnhau'r lleoliadau, mae pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio gan swyddfa Gyrfa Cymru i Goleg Iâl os oes ganddynt ddi-ddordeb mewn gwneud cais. Hysbysebiri yn y wasg hefyd er mwyn denu pawb posibl.

Yna, bydd Coleg Iâl yn trefnu diwrnod gwybodaeth yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, pan fydd y staff yn darparu gwybodaeth am leoliadau yn y Gwasanaeth i bob ymgeisydd ac y bydd Coleg Iâl yn rhoi cyflwyniad llawn. Gellir llenwi'r ffurflenni cais a'u cyflwyno i'r Gwasanaeth ar y diwrnod hwn.

Yn dilyn hyn, bydd y Gwasanaeth yn dethol ymgeiswyr i ddod am gyfweiliad ar gyfer y lleoliadau. Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfweld ac yn dethol eu dysgwyr addas eu hunain. Caiff y cyfweiliadau eu cefnogi gan Goleg Iâl, a fydd yn cynghori ar yr elfennau Adeiladu Sgiliau.

Caiff y myfyrwyr gymorth i wella ac adeiladu ar y canlynol:

- Cyfathrebu'n Effeithiol
- Defnyddio Rhif
- Technoleg Gwybodaeth
- Eu Perfformiad Dysgu Eu Hunain
- Gweithio gydag Eraill
- Datrys Problemau
- Adeiladu Tîm
- Hyder a Gwytnwch
- Sgiliau Cyflwyno

Mae'r myfyriwr a'r sefydliad yn elwa ar y cynllun. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae myfyrwyr yn ei chael yn anodd sicrhau prentisiaethau neu gael cymwysterau dysgu yn seiliedig ar waith er mwyn eu gwneud yn gyflogadwy. Mae'r cynllun Adeiladu Sgiliau yn rhoi £50 yr wythnos i'r myfyriwr, ynghyd â chostau teithio tra byddant ar leoliad gwaith gyda'r Gwasanaeth.

Mae'r cwrs yn cychwyn am bedair wythnos yng Nghanolfan Hyfforddi y Rhyl i gwblhau'r cyfnod cynefino a rhaglen Iâl. Yna, bydd y lleoliad yn cychwyn mewn adran berthnasol o'r Gwasanaeth, a bydd Coleg Iâl yn darparu cymhwyster addas i'r rôl, e.e. Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac NVQ.

Rhai o fanteision eraill y cynllun yw'r ffaith ei fod yn cefnogi Buddsoddwyr mewn Pobl, yn bodloni Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi pobl ddi-waith/ifanc a mentoriaid, ac yn adolygu cynnydd y myfyrwyr bob pedair wythnos.

Gwaith Gwirfoddol

Cynllun Cefnogi Cydweithwyr

Mae'r Cynllun Cefnogi Cydweithwyr yn cynnig ffordd breifat a chyfrinachol o gael rhywun i wrando â dealltwriaeth a chefnogaeth. Mae tîm o unigolion yn y Gwasanaeth wedi cael hyfforddiant arbenigol ar helpu staff gydag unrhyw broblemau yr hoffent eu trafod – boed breifat, cymdeithasol neu'n ymwneud â'r gwaith. Gellir cysylltu â Chydweithiwr Cefnogol ar y ffôn unrhyw bryd; cynigir cyfeiriad e-bost arbennig ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Mae'r hyfforddiant a gafodd y Cydweithwyr Cefnogol yn cynnwys Rheoli Arian a Chyngor ar Ddyledion, Camddefnyddio Sylweddau, Ymwybyddiaeth o Gyffuriau ac Alcohol, Trais Domestig, Trawsrywioldeb ac Ymwybyddiaeth o Ganser.

Mae sawl cyfle hefyd i'r staff helpu pobl ifanc yn wirfoddol.

Gwaith Cymunedol

Drwy ein gwaith o fewn cymunedau lleol, ein nod yw gwella diogelwch. Rydym wedi gallu defnyddio ein sefyllfa o fewn y cymunedau hyn mewn ffyrdd blaengar gan helpu i ddatblygu plant a phobl ifanc, a gwella'r gymuned.

Dyma brosiectau y mae'r Gwasanaeth yn ymwneud â nhw:

Cymdeithas y Diffoddwyr Tân ac Achub

Mudiad ieuenctid yw Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (*YFA*), ac mae'n cael ei redeg gan Wasanaethau Tân ac Achub mewn partneriaeth â Chymdeithas Hyfforddiant Ieuenctid y Gwasanaethau Tân (*FS-YTA*), sef elusen gofrestredig gyda gweithwyr ieuenctid proffesiynol ar y staff.

Mae'r Gymdeithas yn agored i bobl ifanc rhwng 11 ac 17 mlwydd oed. Mae saith cangen yng Ngogledd Cymru.

FACE (*Addysg yn Canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth o Dân*)

Mae'r rhaglen FACE wedi ei hanelu'n benodol at blant sydd wedi datblygu tuedd ddi-eisiau i chwarae efo tân, ac mae wedi profi'n ffordd hynod effeithiol o gael plant i ddeall a dysgu pa mor berygl yw tân.

Caiff y rhaglen ei rhedeg gan staff sydd wedi gwirfoddoli eu gwasanaethau, ac sy'n cymryd amser i siarad gyda'r plant a'u cael i sôn am eu gweithredoedd a'u teimladau. Y staff sy'n gyfrifol am wneud y rhaglen yn gymaint o lwyddiant.

Y Ffenics

Mae prosiect y Ffenics yn gwrs sydd â'r nod o ailgyfeirio egnïon pobl ifanc tuag at weithgareddau cynhyrchiol a gwerth chweil, ac a fydd yn gymorth i'r unigolion integreiddio gyda'u cyfoedion ac yn eu cymunedau.

Yn ystod yr wythnos, caiff y myfyrwyr gyfle i weld y gwaith a wneir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac maent yn cael cymryd rhan mewn ymarferion. Hefyd, trefnir amryw o weithgareddau awyr agored, ynghyd ag ymweliad â'r ystafell reoli i weld galwadau brys yn cael eu derbyn a pheiriannau tân yn cael eu hanfon allan.

Yn ddiweddar, cymerodd pobl ifanc o Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy ran ym mhrosiect y Ffenics yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd yr 13 o fyfyrwyr wedi dewis gwneud y cwrs fel rhan o'u profiad gwaith. ar adeg dathlu'r seremoni cwblhau'r hyfforddiant a chyflwyno'r tystysgrifau i bob myfyriwr, dywedodd Dawn Docx, y Dirprwy Brif Swyddog Tân: "Rydyn ni'n mawr obeithio y bydd y bobl ifanc yma yn teimlo eu bod wedi cael rhywbeth cadarnhaol o brosiect y Ffenics, ac y bydd o fantais iddynt yn y dyfodol." Dywedodd un o'r mynychwyr ei fod yn teimlo'n fwy brwdfrydig a chadarnhaol amdano'i hun o ganlyniad i fynychu'r cwrs.

Mae'r tîm hefyd yn cynnal digwyddiadau ymyrryd pwrpasol undydd a deuddydd am faterion penodol a allai godi mewn ardaloedd yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â chynnal sesiynau gyda chlybiau ieuenctid a grwpiau.



Digwyddiad i Ddathlu Cwblhau Ffenics yn yr Wyddgrug

Pentre Peryglon

Canolfan ryngweithiol yw Pentre Peryglon, sy'n darparu addysg ymarferol ar ddiogelwch yn arbennig i blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Agorwyd Pentre Peryglon yn Hydref 2005, ac mae'n elusen gofrestredig a ddatblygwyd gan nifer o sefydliadau gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a chwmni BHP Billiton Petroleum Ltd.

Mae'r Ceidwaid wedi cael lefel uchel o hyfforddiant, ac mae'r Pentre wedi ei gynllunio i ysbrydoli, addysgu ac ennyn diddordeb y grwpiau. Dyma ffordd ragorol o addysgu'r gymuned ar sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd.

Hyfforddiant

2010 – 2013 - LearnPro

Mae'r Gwasanaeth wedi gwella ei system hyfforddi a datblygu drwy brynu LearnPro. Porth electronig ydyw ar gyfer cyrraedd asesiadau unigol a modiwlau e-ddysgu. Datblygwyd y system a'i rhoi ar waith fesul cam yn 2010/11i bob aelod o'r staff ar yr ochr weithredol, y system RDS a'r amser cyflawn. Mae 3 pecyn e-ddysgu penodol yn y modiwlau, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, gwerthoedd, credoau a'r gallu i herio. Dyma'r 3 modiwl:

- Cydraddoldeb a Thegwch
- Gwerthoedd, Credoau a Rhagdybiaethau
- Herio Ymddygiad Amhriodol.

Cafodd LearnPro ei gyflwyno yn 2009, a dyma'r nifer o'r modiwlau uchod a gwblhawyd dros y 3 blynedd diwethaf:

Cydraddoldeb a Thegwch

<i>2010/11</i>	-	104
<i>2011/12</i>	-	214
<i>2012/13</i>	-	338

Gwerthoedd, Credoau a Rhagdybiaethau

<i>2010/11</i>	-	239
<i>2011/12</i>	-	101
<i>2012/13</i>	-	378

Herio Ymddygiad Amhriodol

<i>2010/11</i>	-	294
<i>2011/12</i>	-	111
<i>2012/13</i>	-	207

Yn 2012/13, cafodd LearnPro ei rhoi ar waith fesul cam i holl staff yr ochr gefnogol. Mae'r tri modiwl uchod yn fodiwl gorfodol ar gyfrif yr unigolyn. Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y modiwlau a gwblhawyd i'w briodoli'n rhannol i'r cynnydd yn nifer y staff sy'n gallu eu cyrraedd ond hefyd oherwydd bod PDRpro Cymru wedi cael ei brynu a'i ddatblygu.

PDRPro Cymru

Mae PDRPro Cymru yn gymhwysiad ar we ar gyfer cofnodi perfformiad a datblygiad yn y gweithle. Mae'n disodli system bapur o gofnodi gweithgareddau gweithredol, hyfforddiant a datblygu staff yr ochr weithredol. Mae i bob rôl elfennau gwahanol y mae'n rhaid eu cyflawni o fewn amserlen benodol er mwyn sicrhau bod cymhwysedd yn cael ei gynnal. Mae'r tri modiwl LearnPro yn elfennau gorfodol i rôl pob person. Mae hyn yn galluogi rheolwyr llinell i fonitro eu staff a sicrhau bod elfennau pob unigolyn yn cael eu cwblhau. Mae'r system hefyd yn cynnwys system goleuadau traffig i rybuddio unigolion ei bod yn bryd iddynt loywi eu gwybodaeth. Mae'r system yn derbyn adroddiadau i'w gwneud yn haws i reoli'r system a monitro pa mor gyfoes yw gwybodaeth a pherfformiad.

Adolygiad o Ddatblygiad Unigol (IDS) - Arfarniad

Mae system flynyddol bresennol yr Adolygiad o Ddatblygiad Unigol (IDR) yn ymgorffori'r Nodweddion a'r Priodweddau Personol (PQA) sydd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer rheolwyr a'u staff fel eu bod yn gallu trafod cynnydd, a phan fo angen, unrhyw anghenion datblygu. O fewn y fframweithiau PQA mae'r 'Ymrwymiad i Amrywiaeth a Didwylledd', sy'n sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael sylw ar lefel yr unigolyn.

Yn y dyfodol, bydd y Gwasanaeth yn datblygu system arfarnu a gaiff ei hymgorffori yn PDRPro er mwyn cael cofnod electronig o'r adolygiad a chofnod o geisiadau datblygu. Bydd yr arfarniad newydd yn ymgorffori amcanion gosodedig y Gwasanaeth, yn ogystal ag amcanion y rheolwr llinell. Bydd yr amcanion yn dilyn map rôl yr unigolyn, sy'n cynnwys ymddygiadau a'r datblygiad gorfodol sy'n ofynnol bob blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff i gyd yn parhau i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a'r gofynion deddfwriaethol cyfredol.

Gwybodaeth Berthnasol Arall am Hyfforddiant

Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi – Cymru gyfan

Cwblhawyd y Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi Cydraddoldeb, a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r Gwasanaethau'n cydweithio â'r Gymdeithas i sicrhau bod pecynnau hyfforddi yn y dyfodol yn cael eu teilwra i ofynion perthnasol staff unigol a'r rôl y maent yn ei chyflawni yn y Gwasanaeth.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ganfod gwahanol becynnau hyfforddi a fydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn symud i gyfeiriad cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol 2011 er mwyn sicrhau bod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gyffredinol a bod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r dyletswyddau sydd yn y Rheoliadau Penodol Cymreig.

Rhoddir rhaglen hyfforddi ar waith dros gyfnod derbyniol o amser, a phan fo modd byddwn yn cydweithio â GTA y Canolbarth a'r Gorllewin a GTA y De i sicrhau cysondeb ac arbedion.

Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb

Yn 2011, fe wnaeth y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i adolygu eu proses Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Yn dilyn yr adolygiad, cafodd y broses ei hail-lansio gyda Nodiadau Cyfarwyddyd newydd. Dechreuodd y tri Gwasanaeth ar raglen hyfforddi a roddwyd ar waith fesul cam yng Nghymru. Mae rheolwyr o'r tri Gwasanaeth wedi cael cwrs hyfforddi undydd a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r tri Gwasanaeth yng Nghymru wedi tendro ar gyfer cyfres newydd o hyfforddiant Aseidiadau Risg Cydraddoldeb, ac ar fin cychwyn arnynt yn y ddwy flynedd nesaf. Bydd pob Gwasanaeth yn hyfforddi Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol ar gwrs undydd; mae cynnwys y cwrs wedi ei gynllunio i gynnwys y dadleuon cyfreithiol a moesol dros Aseidiadau Risg Cydraddoldeb, a bydd yn galluogi rheolwyr i fynd ati'n hyderus i gynnal Aseidiadau Risg Cydraddoldeb.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n diweddarau ei bolisiâu a chwblhau asesiad risg cydraddoldeb newydd ar bob polisi.

Hefyd, cynhelir Aseiad Risg Cydraddoldeb ar benderfyniadau, gweithdrefnau ac arferion ariannol.

Gwybodaeth Berthnasol Arall am Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i adrodd ynghylch data Cyflwyno Gwasanaethau o'u cymharu â'r nodweddion gwarchoddedig, bydd y Gwasanaeth, y flwyddyn nesaf, yn cynnal Aseiad Risg Cydraddoldeb ar bedwar maes o Gyflwyno Gwasanaethau, o ran ei waith rhagweithiol (Diogelwch Cymunedol) a'i waith ymatebol (Ymateb Gweithredol), gan fod cysylltiad anorfod rhyngddynt. Bydd y Gwasanaeth yn cwblhau Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar y meysydd hyn o Gyflwyno Gwasanaethau:

- Tanau Damweiniol mewn Anheddau, Marwolaethau ac Anafiadau
- Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref
- Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd
- Llosgi Bwriadol

Bydd yr asesiad yn edrych ar feini prawf risgiau a ganfuwyd mewn perthynas â phob un o'r nodweddion gwarchoddedig, a bydd yn gymorth i'r Gwasanaeth ganfod pa ddata y mae angen eu casglu, tra'n sicrhau bod y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned yn cael eu diogelu a sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu diwallu'r anghenion o ran cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

Y Fflyd

Yn draddodiadol, mae proffil recriwtio diffoddwyr tân i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ym Mhrydain wedi annog penodi dynion tal a chryf yn unig. Roedd y cyfarpar yn aml yn drwm, a dyluniad cerbydau'n peryglu unrhyw un arall a oedd yn dymuno cael gyrfa yn y gwasanaeth ym Mhrydain.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud mwy nag unrhyw wasanaeth arall ym Mhrydain i newid dyluniad cerbydau traddodiadol er mwyn ailddylunio cerbydau ac offer a lle storio er mwyn inni allu fynd ati'n ddiogel i recriwtio'r amrywiaeth ehangaf o'n cymuned i yrfaeodd diffodd tanau ar y rheng flaen heb beryglu eu hiechyd.

Byddai peryglon o'r fath yn cynnwys codi ac ymestyn am lwythi sy'n anodd oherwydd eu maint. Dyma'r mecanweithiau o'r fath:

- Hongiad awyr (*air suspension*) sy'n caniatáu i gorff y cerbyd gael ei ostwng
- Steipiau i'w tynnu i lawr er mwyn gallu cyrraedd cyfarpar uchel
- Lle cadw ysgolion wedi ei bweru fel nad oes angen gwthio a chodi ysgolion trwm i le uchel
- Silffoedd sy'n llithro ac yn gwyro er mwyn cyrraedd cyfarpar.

Nid peth newydd i Ogledd Cymru yw herio syniadau sydd wedi hen blwyfo. Rydym yn herio corfflunwyr i ddefnyddio maniciaid 5'2" er mwyn sicrhau bod ein dyluniadau'n cyd-fynd â'n nodau penodol ar gyfer amrywiaeth, ac rydym wrthi'n cynnal trafodaeth rhwng gwahanol adrannau tân, ynghyd â grŵp ffocws gyda gwneuthurwyr ysgolion i geisio arbed pwysau yn eu cynnyrch, sydd heb newid fawr ers 40 o flynyddoedd. Rydym wedi trafod gyda nhw i ailedrych ar asesiadau risg ysgrifenedig penodol sy'n gwneud corffolaeth wahanol a chodi ar y cyd yn ganolog i'r asesiadau ffurfiol er mwyn sicrhau bod gan gwsmeriaid wybodaeth o'r fath wrth benderfynu. Nod hyn yw esblygu eu model busnes o ran deall ein hanghenion ni ar gyfer y tymor hir. Os bydd hyn yn llwyddiannus, mae'n debygol o ddod yn rhan o arferion da yn genedlaethol.

Mae gwneud newidiadau o'r fath i ddyluniad yn caniatáu i ddynion a merched, byr a thal, i gydfodoli yn y Gwasanaeth ac i gydweithio heb beryglu eu hiechyd tymor hir wrth weithio gyda ni i wasanaethu'r gymuned.

Cyfleusterau

Ystafelloedd Cymunedol

Mae llawer o safleoedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol/gwirfoddol lleol. Er mwyn darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer anghenion y gymuned leol, ac er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae rhai safleoedd wedi cael eu hailwampio i ymgorffori rampiau/drysau hygyrch a thoiledau hygyrch.

Mae ystafelloedd cymunedol pwrpasol wedi cael eu cynnwys yng Ngorsafoedd Tân y Rhyl, Llangefni, Bwcle a Llandudno, a chânt eu defnyddio gan grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol at amrywiaeth o ddibenion, e.e. i gynnal cyfarfodydd a dosbarthiadau / arddangosiadau.

Mae darparu ystafelloedd cymunedol i grwpiau allanol yn dangos ymrwymiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i hybu cymunedau sy'n iach ac yn fywiog, ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth Tân yn aros wrth galon gweithgareddau lleol.

Y Gwaith Cydraddoldeb a wneir yn Lleoliadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

	Gorsafoedd a Swyddfeydd																						
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20	21	22	23
	Abergele	Aberdyfi	Abersoch	Amlwch	Bala	Bangor	Abermaw	Biwmares	Benllech	Betws y Coed	Blaenau Ffestiniog	Bwcle	Caernarfon	Cerrigydrudion	Y Waun	Bae Colwyn	Conwy	Corwen	Glannau Dyfrdwy	Dinbych	Dolgellau	Y Fflint	Harlech
Gwaith Cydraddoldeb	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hygyrchedd				✓		✓	✓	✓			✓	✓	✓		✓	✓		✓				✓	✓
Ystafelloedd Cymunedol Pwrpasol				✓		✓	✓				✓	✓	✓			✓							

	Gorsafoedd a Swyddfeydd																					
	24	25	26	27	28	29	30	31	32	33	34	35	36	37	38	39	40	41	42	43	44	45
	Caergybi	Pencadlys	Treffynnon	Johnstown	Llanberis	Llandudno	Llanfairfechan	Llangefni	Llanrwst	Llangollen	Porthaethwy	Yr Wyddgrug	Nefyn	Porthmadog	Prestatyn	Pwllheli	Rhosneigr	Y Rhyl	Rhuthun	Llanelwly	Tywyn	Wrecsam
Gwaith Cydraddoldeb	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Hygyrchedd	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓			✓		✓	✓	✓		✓				
Ystafelloedd Cymunedol Pwrpasol	✓					✓		✓	✓			✓			✓	✓		✓				

Caffael

Caiff pob prosiect caffael ei drin gan Adran Gaffael Heddlu Gogledd Cymru ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. O ran Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru, sy'n caffael ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol arni, o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, a dyletswydd foesol i hybu cydraddoldeb a thegwch ymhob rhan o'i busnes, boed hynny'n fewnol ymysg y staff, yr aelodau a gwirfoddolwyr, neu'n allanol wrth ymdrin â chontractwyr a chyflenwyr.

Gofynnir i Weithredwyr Economaidd ddarparu copiâu o bolisiâu sydd ganddynt i ddangos eu hymrwymiad i gyfle cyfartal mewn perthynas â rhyw, oedran, hil, anabledd, gogwydd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru, ynghyd â'r heddluoedd eraill yn Rhanbarth y Gogledd-Orllewin, yn llwyr gefnogi pob agwedd ar amrywiaeth, gan gynnwys ethnigrwydd, hil, crefydd, oedran, rhywedd, anabledd a gogwydd rhywiol. Yn hyn o beth, mae'r heddluoedd yn croesawu datganiadau o ddiddordeb gan leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a gwahanol gymunedau busnes eraill a'r sector gwirfoddol.

Sut i gysylltu â ni

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn hawdd mewn gwahanol ffurfiau. Bydd ffurfiau eraill, megis papur lliw neu sain ar gael os gofynnir amdanynt. Os ydych yn dymuno rhoi adborth neu wneud awgrym, neu os ydych yn dymuno cael copi ar ffurf arall, cysylltwch â:

Post:	Yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Ffordd Salesbury Parc Busnes Llanelwy LLANELWY Sir Ddinbych LL17 0JJ	Ffôn:	01745 535266
		Ffacs:	01745 535296
		E-bost:	sue.jones@gwastan-gogcymru.org.uk

Ein Hamcanion

Rheoliad 3	gosod a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb
Rheoliad 3(2)	cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb
Rheoliad 4	llunio ac adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb
Rheoliad 13	adolygu'r holl drefniadau a wneir o dan y Rheoliadau
Rheoliad 14	ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Iunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn Ebrill 2012
Rheoliad 15	bydd yr Awdurdod yn llunio ac yn adolygu'r CCS
Rheoliad 16	cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ar gasglu data perthnasol

Gosod Amcanion Cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd ar gynnydd y Cynllun.

Amcan 1	Gosod a monitro'r Amcanion Cydraddoldeb sydd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac adolygu'r Amcanion cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd, ac adrodd ar y gynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob Amcan.
Rheswm	Mae'r Amcanion Cydraddoldeb sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi eu seilio ar dystiolaeth, a honno wedi ei chael trwy naill ai gynnwys neu ymgynghori, yn benodol gyda'r rhai sy'n cynrychioli neu'n rhannu'r naw o nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010. Wedi ei gosod yn y Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru), ac yn cael ei gefnogi ganddynt.
Y Canlyniad a Ddisgwylir	Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar yr Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau busnes yr adrannau perthnasol. Bydd yr amcanion yn rhan o'r mecanwaith adrodd busnes, gan adolygu cynnydd bob chwarter. Bydd yr Amcanion yn arwain at sicrhau bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ei adnoddau ar bobl fregus yn y gymuned a staff yr Awdurdod sy'n gynrychioliadol o un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.
Cynnydd rhwng 2 ^{il} Ebrill 2012 a 31 ^{ain} Mawrth 2013	Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn Ebrill 2012, a chlustnodwyd swyddog arweiniol ar gyfer yr amcanion cydraddoldeb sydd yn y cynllun cydraddoldeb. Trafodwyd y mecanwaith adrodd, ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y mecanwaith yn hwyluso'r broses o ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb yn y broses cynllunio busnes, a hynny gydag adroddiadau monitro bob chwarter. Yn y blynyddoedd adrodd yn y dyfodol, y diweddariad chwarterol ar gynnydd fydd yr adroddiad cynnydd mewn perthynas â phob Amcan Cydraddoldeb. Mae Grŵp Llywio Cydraddoldeb wedi cael ei sefydlu i fonitro cynnydd mewn perthynas â phob amcan, i ddatblygu amcan newydd i'w gynnwys yn y blynyddoedd i ddod, ac i roi sêl bendith ar bob Amcan ar ôl iddo gael ei gwblhau. Bydd camau gweithredu yn deillio o'r Amcanion yn dod yn rhan o gynlluniau busnes yn y dyfodol.

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd yr Awdurdod yn gosod Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cefnogi ein hamcanion gwella, ac yn cael eu monitro bob chwarter trwy broses y gyllideb a chynllunio busnes, a byddant yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub. Wedi hynny, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gadw dan arolwg blynyddol, ac yn derbyn arolwg llawn cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd.

Rheoliad 4

sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu

Rheoliad 5

gofyniad i gydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu

Trefniadau Ymgysylltu a Chynnwys

Amcan 2	Datblygu Strategaeth Ymgynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd a staff yr Awdurdod sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a rhai y mae ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn effeithio arnynt. Bydd y Strategaeth yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau sy'n dod dan un neu ragor o'r naw o nodweddion gwarchoddedig.
Rheswm	Mae'r Dyletswyddau Penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys pobl y mae penderfyniadau, polisïau a'r gweithdrefnau'r Awdurdod yn effeithio arnynt, ac ymgynghori â hwy.
Y Canlyniad a Ddisgwylir	Dylai datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu dilynol gael ei oleuo gan ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r staff ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dod dan un neu ragor o'r naw nodwedd warchoddedig. Bydd ymgynghori a chynnwys yn arwain at amcanion realistig sy'n cael eu goleuo gan aelodau o'r cyhoedd a'r staff.
Cynnydd rhwng 2 ^{if} Ebrill 2012 a 31 ^{ain} Mawrth 2013	<p>Mae strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu wedi cael ei llunio a'i chymeradwyo mewn egwyddor gan Grŵp Gweithredol y Gwasanaeth.</p> <p>Ers hynny, mae'r strategaeth wedi cael ei rhannu gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yn Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan, ac mae wedi ei datblygu ymhellach fel fersiwn ar gyfer Cymru gyfan – mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin wedi rhoi adborth adeiladol (drwy eu Rheolwr Cyfathrebu) ac ymgorfforwyd hynny, e.e. ei wneud yn fwy o becyn cymorth, ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub y De wedi nodi'r strategaeth wreiddiol a'r bwriad i'w datblygu ymhellach gan ddweud wrthym fod ymgynghori yn un o'u hamcanion craidd felly maent yn awyddus i ganolbwyntio mwy ar hyn. Ailedrychir ar y fersiwn ddiwygiedig yn Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan er mwyn cael cytundeb ac fel bod pob Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystyried ei fabwysiadu.</p>

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd yr Awdurdod yn sefydlu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, bydd y strategaeth hon yn edrych ar y ffordd yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn edrych ar ffyrdd o wella'r broses, a defnyddio'r ffyrdd cyfredol o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig oedolion a phlant bregus. Bydd y strategaeth yn ystyried defnyddio grwpiau cyfeillion beirniadol neu ymgynghoriad partneriaeth.

Rheoliad 5

Rheoliad 7

Rheoliad 16

Casglu Data'r Awdurdod

darpariaethau ymgysylltu

casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd

Gyffredinol

cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ar gasglu data perthnasol

Amcan 3	Dadansoddi'r modd y mae'r Awdurdod yn casglu data am Gyflwyno Gwasanaethau, a'r modd y cânt eu defnyddio i oleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau yn y dyfodol, a gwella hynny. Adnabod ffyrdd i gipio'r data coll perthnasol, a datblygu proses ar gyfer casglu'r data.
Rheswm	<ul style="list-style-type: none">• Cymryd rhan mewn proses o welliant parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.• Sicrhau ein bod yn casglu'r data angenrheidiol a pherthnasol ar Gyflwyno Gwasanaethau, a bod y data'n cyfateb i un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig perthnasol.
Canlyniad a Ddisgwyllir	Bod y data a gasglwn yn cael eu mesur, a'u bod yn berthnasol ac yn goleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau i rannau bregus o'r gymuned yn y dyfodol.
Cynnydd rhwng 2 ^{il} Ebrill 2012 a 31 ^{ain} Mawrth 2013	<p>Mae gan y Gwasanaeth ddau ddull o gofnodi gwybodaeth ynghylch Cyflwyno Gwasanaethau.</p> <p>System Cofnodi Gwybodaeth – cofnodi galwadau brys i'r Gwasanaeth 999.</p> <p>Caiff y data canlynol eu cipio gan griwiau'r ochr weithredol ar System Cofnodi Gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• Oedran – Cesglir am bob digwyddiad yr aiff y Gwasanaeth ato• Rhywedd – Cesglir am bob digwyddiad yr aiff y Gwasanaeth ato• Ethnigrwydd – Cesglir am bob digwyddiad yr aiff y Gwasanaeth ato• Anabledd Corfforol – Nid yw'r system yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd, ond cesglir yr wybodaeth yn ystod Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref. Cynhelir Archwiliad ar ôl tân mewn annedd bob amser. Felly, gellid cario'r wybodaeth drosodd. Gwneir rhagor o ymchwiliadau i ganfod system er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd yn awtomatig. <p>Trosoglwyddir yr wybodaeth ar y ffôn i'r Ganolfan Reoli, a bydd y staff yno yn mewnbynnu'r data gyda llaw.</p> <p>Dadansoddi atebion i gwestiynau'r System Cofnodi Digwyddiadau er mwyn canfod beth sy'n gymwys i'r amcan hwn.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu a oes modd ehangu'r system yng Nghymru i ymgorffori casglu'r data hyn pan ganfyddir risg. Bydd y meysydd a ddewisir yn dibynnu ar asesiad risg cydraddoldeb am bob un o'r nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>System Rheoli Cofnodion – cofnodi Archwiliadau Diogelwch Tân</p>

	<p>yn y Cartref. Caiff y data canlynol eu cipio ar y system hon</p> <ul style="list-style-type: none"> • Oedran • Rhywedd • Ethnigrwydd • Anabledd <p>Caiff data eu casglu ar y system i ddylanwadu ar y modd y caiff diogelwch cymunedol ei gyflwyno. Gwneir rhagor o waith i groesgyfeirio a gweld sut y mae'r nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar y prif feysydd o gyflwyno gwasanaethau.</p> <p>Caiff hyn ei gynnwys yng ngwaith cynllunio Adrannau, i'w gwblhau yn 2013-14</p> <p>Mae gwaith yn mynd ymlaen i benderfynu pa wybodaeth sydd eisoes yn y System Rheoli Cofnodion.</p> <p>Bydd angen i waith yn y dyfodol ganolbwyntio ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canfod ac eitemeiddio'r data 'coll', • penderfynu (drwy asesiad risg) beth sydd angen ei gasglu gan GTAGC, • cytuno sut i gasglu'r data sydd eu hangen, • dyrannu cyfrifoldeb am gasglu a systemau sicrhau ansawdd ar gyfer yr eitemau data newydd hyn • ystyried a chytuno sut y gellir <i>dangos</i> bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i oleuo a gwella'r modd o Gyflwyno Gwasanaethau. <p>Caiff data eu casglu ar feysydd sy'n arbennig o agored i danau, fel y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân, yn ogystal â tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Erbyn hyn, caiff gwybodaeth am ffactorau megis nifer y bobl (heblaw 'deiliad y tŷ') sy'n byw mewn annedd lle mae rhywun ag anabledd, a hynny er mwyn sicrhau bod modd ymdrin ag anghenion y person fel y bo'n briodol.</p> <p>Adolygu'r dulliau casglu data er mwyn sicrhau bod y data angenrheidiol yn cael eu cipio.</p>
--	--

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd yr Awdurdod yn dadansoddi'r data am Gyflwyno Gwasanaethau yr ydym yn eu casglu ar hyn o bryd, a sicrhau ein bod yn casglu'r data hyn, lle bo modd, yn ôl un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Bydd y data a gasglwn yn gymorth i oleuo ac arwain ein ffordd o ddarparu gwasanaethau i bobl fregus yn y dyfodol.

Sicrhau Ansawdd y ffordd sefydledig o Ymgysylltu â Chymunedau

Amcan 4	Sicrhau bod yr Awdurdod yn craffu ar y modd yr ymgysylltir ar hyn o bryd ag aelodau o'r cyhoedd, a bod y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei sicrhau o ran ansawdd, ac yn berthnasol i'r gynulleidfa darged.
Rheswm	Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnwys ac ymgynghori â'r bobl y mae'r Awdurdod yn ystyried eu bod yn cynrychioli un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.
Canlyniad a Ddisgwylir	Bydd yr adborth a geir wrth ymgysylltu yn goleuo Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol, ac yn gymorth i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod.
Cynnydd rhwng 2 ^{if} Ebrill 2012 a 31 ^{ain} Mawrth 2013	<p>Caiff data eu casglu ar y System Rheoli Cofnodion, a'u defnyddio i ddylanwadu ar y modd y caiff diogelwch cymunedol ei gyflwyno. Gwneir rhagor o waith i groesgyfeirio a gweld sut y mae'r nodweddion gwarchodedig yn effeithio ar y prif feysydd o gyflwyno gwasanaethau.</p> <p>Gwneir gwaith sicrhau ansawdd gyda'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod anghenion y cleient yn cael eu diwallu.</p> <p>Caiff adolygiad o'r sefydliadau presennol sy'n cyflwyno Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar ran GTAGC ei gwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r gynulleidfa darged.</p> <p>Bydd methodoleg sicrhau ansawdd gwasanaeth (yr Archwiliadau) yn cael ei hystyried ar gyfer eu datblygu ar sail Cymru gyfan.</p>

Datganiad Cydraddoldeb

Byddwn yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnis i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn defnyddio'r cyfle i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyson sy'n diwallu anghenion pawb sy'n ei dderbyn. Ni ddylid colli cyfle i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu a sut y gallwn wella'r gwasanaeth.

Rheoliad 5
Rheoliad 7

darpariaethau ymgysylltu
casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd
Gyffredinol.

Rhannu Gwybodaeth

Amcan 5	Archwilio'r wybodaeth a gesglir gan yr Awdurdod ac a rennir ag asiantaethau eraill. Sicrhau bod yr wybodaeth am droseddau casineb, sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig, ar gael i'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, a bod proses yn ei lle ar gyfer cynghori dioddefwyr.
Rheswm	Sicrhau bod yr Awdurdod yn cyfrannu at adeiladu cymunedau cryfach, mwy diogel a cydlynol, tra'n cynorthwyo i warchod y bobl mwyaf bregus rhag troseddau casineb, yn enwedig tanau bwriadol.
Canlyniad a Ddisgwylir	<ul style="list-style-type: none">• Lleihau'r achosion o losgi bwriadol a throseddau sy'n gysylltiedig â chasineb.• Cynyddu'r amddiffyniad i unigolion bregus.
Cynnydd rhwng 2 ^{ll} Ebrill 2012 a 31 ^{ain} Mawrth 2013	<p>Mae gan y Gwasanaeth brotocol gyda Heddlu Gogledd Cymru, sef bydd troseddau casineb yn cael eu hadnabod ac y bydd ymyriadau'n cael eu cynnal gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol pan fo angen.</p> <p>Erbyn hyn, cofnodir gweithgareddau o dan feini prawf penodol o ymyriadau gan y Tîm er mwyn canfod mathau posibl o droseddau.</p> <p>Y Tîm i barhau i hyfforddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion yr Heddlu i sicrhau ymwybyddiaeth lwyr o weithgareddau'r Tîm mewn perthynas â throseddau casineb (a meysydd eraill).</p>

Datganiad Cydraddoldeb

Wrth archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn edrych yn benodol ar droseddau casineb sydd wedi eu hanelu'n benodol at nodweddion gwarchoddedig penodol. Bydd yr Awdurdod yn asesu a oes mwy y gall ei gyfrannu i warchod grwpiau bregus mewn perthynas â thanau bwriadol.

Argaeledd Gwybodaeth

Amcan 6	Bydd yr Awdurdod yn gwneud yr wybodaeth y mae gofyn iddo ei chadw ar gael mewn ffordd hawdd cael gafael arni pan fo personau sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig yn gwneud cais amdani.
Rheswm	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at wybodaeth a fydd o gymorth i'w galluogi i fyw bywydau diogel a sicr. • Gall pob aelod o'n cymunedau gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Awdurdod ar gyfer cynnwys ac ymgynghori, gan ddefnyddio dull cyfathrebu o'u dewis hwy. • Gall cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref. • Gall cymunedau busnes sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân deddfwriaethol.
Canlyniad a Ddisgwylir	Gall pob aelod o'r gymuned gael mynediad at wybodaeth sy'n ei alluogi i fyw a gweithio mewn amgylchedd diogel a sicr; bydd hyn yn cynnwys cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg ac sydd angen gwybodaeth deddfwriaethol a chymunedol.
Cynnydd rhwng 2 ^{il} Ebrill 2012 a 31 ⁱⁿ Mawrth 2013	<p>Mae gan GTAGC amrywiaeth o ffyrdd o ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd – gan gynnwys y cylchlythyr 'Er Gwybodaeth'. Gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan GTAGC a gallwch wneud cais i fod ar y rhestr ddosbarthu (mae hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd). Mae amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau ar gael, gan gynnwys y wefan (gyda gwasanaeth llafar), gwefannau rhwydweithio cymdeithasu (Facebook, Twitter, YouTube), cyfeiriadau e-bost penodol, gwybodaeth diogelwch tân a diogelwch tân deddfwriaethol, arddangosfeydd, hysbysebion ar y radio, hysbysebion mewn cyhoeddiadau, erthyglau ar y cyfryngau lleol (darlledu, argraffu ac ar-lein), banc lleisiau (i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfryngau), cyflwyniadau ac ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau a chyrsgau hyfforddi, y Ffenics a'r pecyn diogelwch tân i ymarferwyr iechyd ei ddefnyddio gyda chleientiaid.</p> <p>Mae cyfres o daflenni diogelwch tân ar gyfer Cymru gyfan wedi eu llunio drwy Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan, ac maent ar gael i'w lawrlwytho ar wefannau'r GTAau. Fe'u cynhyrchwyd yn ddwyieithog ac mewn diwyg hawdd ei ddarllen, gyda'r hyblygrwydd yn ddiweddarach, os oes galw a chyllid, i'w cyfieithu a'u cynhyrchu mewn ieithoedd eraill os oes angen.</p> <p>Cychwynwyd ar brosiect cardiau adnabod gyda Braille arnynt i'w darllen gan bobl a nam ar eu golwg. Mae'r prosiect Braille ar fin cael ei gwblhau, a'r cardiau adnabod newydd wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu.</p>

Datganiad Cydraddoldeb

Mae'r dyletswyddau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd, ac i sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch i bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys mynediad ar y we, gyda thafenni a dalenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu gan yr Adrannau Diogelwch Tân Deddfwriaethol a Chymunedol a Chyfathrebu Corfforaethol.

Asesiad Risg Cydraddoldeb

Amcan 7	Rhaid i broses yr Awdurdod o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau bod staff wedi cael eu hyfforddi i gynnal Asesiadau Risg Cydraddoldeb.
Rheswm	Rhaid i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol i asesu effaith tebygol ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol 2010 a Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru).
Canlyniad a Ddisgwylir	Bydd yr Awdurdod yn cynnal ac yn cyhoeddi canlyniadau ARCAu a gynhaliwyd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2001 a Dyletswyddau Penodol (Cymru) 2011.
